



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 305 (Cy. 78)

2021 No. 305 (W. 78)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol ac Atebolrwydd
Gweithredwyr) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Operator Liability)
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) Regulations 2021

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profi cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) (y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (O.S. 2021/154 (Cy. 38)) ("Rheoliadau Rhif 3").

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations"), the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 (S.I. 2021/48 (W. 11)) ("the Operator Liability Regulations") and the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2021 (S.I. 2021/154 (W. 38)) ("the No. 3 Regulations").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with those Regulations.

Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemtio rhag gorfod cydymffurfio.

The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Ran 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi a throseddau a all gael eu cyflawni o dan y Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 14 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyniad esgus rhesymol mewn perthynas â'r troseddau o dan y Rheoliadau hynny o fethu â darparu gwybodaeth am deithiwr a darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithiwr, neu hysbysu ynghylch newidiadau i'r wybodaeth honno.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 1A i'r Rheoliadau hynny yn rhoi manylion pellach ynghylch beth yw prawf a hysbysiad dilys at ddibenion rheoliad 6A o'r Rheoliadau hynny, sy'n nodi'r gofyniad i feddu ar hysbysiad o brawf negyddol cyn cyrraedd Cymru. Mae rheoliad 3 yn diwygio cynnwys gofynnol yr hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn esemptio categorïau penodol o weithiwr rhag gorfod ynysu, neu o dan amgylchiadau penodol, rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr. Mae rheoliad 4 yn ehangu cwmpas yr esemptiad ar gyfer criw awyren ym mharagraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys criw y mae'n ofynnol iddynt deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 5 yn gwneud dileadau ac ychwanegiadau i Atodlen 4 er mwyn diweddarau'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i groesgyfeiriadau amrywiol yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn rhoi'r pŵer i gwnstabl i ofyn am dystiolaeth oddi wrth berson ei fod wedi archebu profion diwrnod 2 a diwrnod 8 sydd i'w cymryd ar ôl iddo gyrraedd Cymru ac wedi talu am y profion hynny. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i swyddog mewnffudo i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw oedolyn y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i destun Cymraeg paragraff 5 o Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Part 2 of these Regulations makes amendments to Part 4 of the International Travel Regulations, which makes provision regarding enforcement and offences which may be committed under those Regulations. Regulation 2 amends regulation 14 of the International Travel Regulations to make provision for a reasonable excuse defence in relation to the offences under those Regulations for failure to provide passenger information and providing false or misleading information in relation to the requirements to provide, or notify changes to, passenger information.

Part 3 of these Regulations amends Schedule 1A to the International Travel Regulations. Schedule 1A to those Regulations provides further details as to what constitutes a valid test and notification for the purposes of regulation 6A of those Regulations, which sets out the requirement to possess notification of a negative test before arriving in Wales. Regulation 3 amends the required content of the notification of a negative test result set out in paragraph 2 of Schedule 1A.

Part 4 of these Regulations amends Part 2 of Schedule 2 to the International Travel Regulations. Schedule 2 to those Regulations exempts certain categories of worker from having to isolate, or in certain circumstances, provide passenger information. Regulation 4 widens the scope of the exemption for aircraft crew at paragraph 10 of Schedule 2 to the International Travel Regulations to include crew that are otherwise required to travel to the United Kingdom for work purposes.

Part 5 of these Regulations amends Schedule 4 to the International Travel Regulations. Regulation 5 makes removals and additions to Schedule 4 to update the list of specified sporting events.

Part 6 of these Regulations makes miscellaneous amendments to various cross-references in the International Travel Regulations and to provide a constable with the power to request evidence from a person that they have booked and paid for day 2 and day 8 tests to be taken after their arrival in Wales. It also makes provision providing an immigration officer with the power to issue a fixed penalty notice to any adult the officer reasonably believes has committed an offence under regulation 12E of the International Travel Regulations.

Part 7 of these Regulations makes technical amendments to the Welsh language text of paragraph 5 of Schedule 5 to the International Travel Regulations.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad technegol i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3.

Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr o ganlyniad i'r diwygiad a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 8 of these Regulations makes a technical amendment to regulation 2 of the No. 3 Regulations.

Part 9 of these Regulations amends the Operator Liability Regulations in consequence of the amendment made to the International Travel Regulations by Part 3 of these Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2021 Rhif 305 (Cy. 78)

2021 No. 305 (W. 78)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol ac Atebolrwydd
Gweithredwyr) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2021**

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Operator Liability)
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) Regulations 2021**

Gwnaed am 12.02 p.m. ar 12 Mawrth 2021

Made at 12.02 p.m. on 12 March 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 12 Mawrth 2021*

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 12 March 2021*

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 13 Mawrth 2021

*Coming into force at 4.00 a.m. on 13 March
2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B, 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

RHAN 1

PART 1

Cyffredinol

General

Enwi, dod i rym a dehongli

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Operator Liability) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 13 Mawrth 2021.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 13 March 2021.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1);
- (b) ystyr y “Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021(2);
- (c) ystyr “Rheoliadau Rhif 3” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021(3).

RHAN 2

Diwygiadau i Ran 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i reoliad 14 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (troseddau)

2.—(1) Mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (troseddau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1B), ar ôl “rheoliad” mewnosoder “4(1) neu (4), 5(2),”.

(3) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Ond nid yw person yn cyflawni trosedd o dan reoliad 4 neu 5 os oes ganddo esgus rhesymol dros ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Ysgrifennydd Gwladol.”

(3) In these Regulations—

- (a) the “International Travel Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1);
- (b) the “Operator Liability Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel, Pre-Departure Testing and Operator Liability) (Wales) (Amendment) Regulations 2021(2);
- (c) the “No. 3 Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2021(3).

PART 2

Amendments to Part 4 of the International Travel Regulations

Amendments to regulation 14 of the International Travel Regulations (offences)

2.—(1) Regulation 14 of the International Travel Regulations (offences) is amended as follows.

(2) In paragraph (1B), after “regulation” insert “4(1) or (4), 5(2),”.

(3) After paragraph (2) insert—

“(2A) But a person does not commit an offence under regulation 4 or 5 if they have a reasonable excuse for providing false or misleading information to the Secretary of State.”

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26) ac O.S. 2021/154 (Cy. 38).

(2) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18) ac O.S. 2021/171 (Cy. 39).

(3) O.S. 2021/154 (Cy. 38).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/24 (W. 8), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/48 (W. 11), S.I. 2021/50 (W. 12), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/95 (W. 26) and S.I. 2021/154 (W. 38).

(2) S.I. 2021/48 (W. 11), amended by S.I. 2021/72 (W. 18) and S.I. 2021/171 (W. 39).

(3) S.I. 2021/154 (W. 38).

RHAN 3

Diwygiadau i Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i baragraff 2 o Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (profion cyn cyrraedd Cymru)

3.—(1) Mae Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (profion cyn cyrraedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2—

- (a) yn is-baragraff (b), yn lle “geni'r” rhodder “geni neu oedran y”;
- (b) yn lle is-baragraff (e) rhodder—
 - “(e) datganiad—
 - (i) bod y prawf yn brawf adwaith cadwynol polymerasau, neu
 - (ii) o enw'r ddyfais a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf,”;
- (c) hepgorer is-baragraff (f).

RHAN 4

Diwygiad i Ran 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiad i baragraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt)

4. Yn lle paragraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt) rhodder—

“10.—(1) Aelod o griw awyren pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu y mae'n ofynnol iddo deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

- (a) ystyr “aelod o griw awyren” yw person sydd—
 - (i) yn gweithredu fel peilot, llywiwr hedfan, peiriannydd hedfan neu weithredwr radioteleffoni hedfan yr awyren,
 - (ii) yn cael ei gludo ar y dec hedfan ac yn cael ei benodi gan weithredwr yr awyren i roi neu i oruchwylio'r hyfforddiant, y profiad, yr ymarfer a'r profion cyfnodol sy'n ofynnol ar gyfer y criw hedfan o dan

PART 3

Amendments to Schedule 1A to the International Travel Regulations

Amendments to paragraph 2 of Schedule 1A to the International Travel Regulations (testing before arrival in Wales)

3.—(1) Schedule 1A to the International Travel Regulations (testing before arrival in Wales) is amended as follows.

(2) In paragraph 2—

- (a) in sub-paragraph (b), after “birth” insert “or age”;
- (b) for sub-paragraph (e) substitute—
 - “(e) a statement—
 - (i) that the test was a polymerase chain reaction test, or
 - (ii) of the name of the device that was used for the test,”;
- (c) omit sub-paragraph (f).

PART 4

Amendment to Part 2 of Schedule 2 to the International Travel Regulations

Amendment to paragraph 10 of Schedule 2 to the International Travel Regulations (exempt persons)

4. For paragraph 10 of Schedule 2 to the International Travel Regulations (exempt persons) substitute—

“10.—(1) A member of aircraft crew where they have travelled to the United Kingdom in the course of their work or are otherwise required to travel to the United Kingdom for work purposes.

(2) For the purposes of this paragraph—

- (a) “member of aircraft crew” means a person who—
 - (i) acts as a pilot, flight navigator, flight engineer or flight radiotelephony operator of the aircraft,
 - (ii) is carried on the flight deck and is appointed by the operator of the aircraft to give or to supervise the training, experience, practice and periodical tests required for the flight crew under article 114(2) of

erthygl 114(2) o Orchymyn Llywio Awyr 2016(1), neu

- (iii) yn cael ei gludo ar yr heddiad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w hasainio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren er budd diogelwch teithwyr neu'r awyren;
- (b) mae teithio at ddibenion gwaith yn cynnwys, yn benodol—
 - (i) pan fo'r aelod o griw awyren yn preswyllo y tu allan i'r Deyrnas Unedig, teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio ar awyren sy'n ymadael â'r Deyrnas Unedig,
 - (ii) teithio i fynychu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig,
 - (iii) dychwelyd i'r Deyrnas Unedig yn dilyn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig.”

RHAN 5

Diwygiadau i Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (digwyddiadau chwaraeon penodedig)

5. Yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (digwyddiadau chwaraeon penodedig)—

- (a) hepgorer y cofnodion a ganlyn—
 - “Taith Snwcer y Byd – Shoot Out,”
 - “British Judo – Cystadleuaeth Wahodd Gaeedig Hŷn Prydain,”
 - “Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol – Meistri Ladbrokes,”
 - “Taith Snwcer y Byd – Meistri'r Almaen,”
 - “Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth y Chwaraewyr,”
 - “Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth Agored Cymru,”
 - “Rasio ceffylau – Betfair Ascot Chase Day,”

the Air Navigation Order 2016(1), or

- (iii) is carried on the flight for the purpose of performing duties to be assigned by the operator or the pilot in command of the aircraft in the interests of the safety of passengers or of the aircraft;
- (b) travel for work purposes includes, in particular—
 - (i) where the member of aircraft crew resides outside the United Kingdom, travelling to the United Kingdom to work on an aircraft departing from the United Kingdom,
 - (ii) travelling to attend work-related training in the United Kingdom,
 - (iii) returning to the United Kingdom following work-related training outside the United Kingdom.”

PART 5

Amendments to Schedule 4 to the International Travel Regulations

Amendments to Schedule 4 to the International Travel Regulations (specified sporting events)

5. In Schedule 4 to the International Travel Regulations (specified sporting events)—

- (a) omit the following entries—
 - “World Snooker Tour – Shoot Out,”
 - “British Judo – British Closed Senior Invitational Competition,”
 - “Professional Darts Corporation – Ladbrokes Masters,”
 - “World Snooker Tour – German Masters,”
 - “World Snooker Tour – Players Championship,”
 - “World Snooker Tour – Welsh Open,”
 - “Betfair Ascot Chase Day horse-racing,”

(1) O.S. 2016/765. Mae diwygiadau i Atodlen 1 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(1) S.I. 2016/765. There are amendments to Schedule 1 but none are relevant.

“Digwyddiadau Tennis Cadair Olwyn Dan Do Bolton ITF,”

“Cwpan y Byd Gymnasteg FIG,”

“Rasio ceffylau – Grand National Trial Day,”

“Matchroom – Sêr Gymnasteg,”

“Matchroom – Meistri Ping Pong y Byd,”

“Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol – yr Ysgol Gymhwyso,”;

(b) ar y diwedd mewnosoder—

“British Athletics – Treial Olympaidd Ras Gerdded 20 cilometr,

British Wrestling – Twrnamaint Gwahodd y Cenedloedd Cartref,

Twrnamaint Tennis Cadair Olwyn Dan Do yr LTA Loughborough,

Prolog a Rownd 1 Pencampwriaeth World Endurance yr FIA Silverstone,

Cyfarfod Sbrint British Para Athletics,

Motorsport UK – Penwythnos Rasio Hanesyddol y Meistri Pencampwriaeth Fformiwlâ 2 yr HSCC,

Motorsport UK – Pencampwriaeth Superkart Prydain a’r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Pencampwriaeth Rasio Tryciau Prydain,

British Equestrian – Digwyddiadau Dressage Rhyngwladol,

Cyfarfod Rhyngwladol British Para Swimming,

Cage Warriors 121,

Treialon Ceffylau Badminton,

Cylchdaith Ewrop – Meistri Prydain Betfred,

Motorsport UK – Cwpan Sbrint Her y Byd Ewrop GT a’r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Gŵyl Hanesyddol Donington,

Motorsport UK – Pencampwriaeth Ceir Teithio Prydain a’r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Her Ferrari y DU a Chefnogaeth,

Motorsport UK – Pencampwriaeth GT Prydain a’r Gyfres Gefnogi / Her Sbrint Porsche Prydain Fawr a’r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Meistri Hanesyddol F1 / Sbortsceir a’r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Prif Ddigwyddiad FIA 2021 a’r Gyfres Gefnogi,

“Bolton Indoor ITF Wheelchair Tennis events,”

“FIG Gymnastics World Cup,”

“Grand National Trial Day horse-racing,”

“Matchroom – Superstars of Gymnastics,”

“Matchroom – World Ping Pong Masters,”

“Professional Darts Corporation – Q School,”;

(b) at the end insert—

“British Athletics – 20km Race Walk Olympic Trial,

British Wrestling – Home Nations Invitational Tournament,

LTA Loughborough Indoor Wheelchair Tennis Tournament,

FIA World Endurance Championship Prologue and Round 1 Silverstone,

British Para Athletics Sprint Meet,

Motorsport UK – HSCC Formula 2 Championship Masters Historic Race Weekend,

Motorsport UK – British Superkart Championship and Support Series,

Motorsport UK – British Truck Racing Championship,

British Equestrian – International Dressage Events,

British Para Swimming International Meet,

Cage Warriors 121,

Badminton Horse Trials,

European Tour – Betfred British Masters,

Motorsport UK – GT World Challenge Europe Sprint Cup and Support Series,

Motorsport UK – Donington Historic Festival,

Motorsport UK – British Touring Car Championship and Support Series,

Motorsport UK – Ferrari Challenge UK and Support,

Motorsport UK – British GT Championship and Support Series / Porsche Sprint Challenge GB and Support Series,

Motorsport UK – Masters Historic F1 / Sports Cars and Support Series,

Motorsport UK – FIA Main Event 2021 and Support Series,

Pro League Hoci Lloegr,
Pencampwriaeth y Byd Grand Prix
Speedway yr FIM – Rownd Ragbrofol,
Sioe Geffylau Royal Windsor,
Sioe Geffylau Rhyngwladol Bolesworth,
Uwch-gynghrair, Pencampwriaeth a
Chynghrair Ddatblygu Genedlaethol British
Speedway,
Pencampwriaeth Bêl-droed Ewropeaidd
UEFA 2020.”

England Hockey Pro League,
FIM Speedway Grand Prix World
Championship – Qualifying Round,
Royal Windsor Horse Show,
Bolesworth International Horse Show,
British Speedway Premiership,
Championship and National Development
Leagues,
The 2020 UEFA European Football
Championship.”

RHAN 6

Diwygiadau Amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

6.—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6A(4)(d), yn lle “mharagraff 24” rhodder “mharagraff 14”.

(3) Yn rheoliad 6B(8)—

- (a) ar ôl “mewnfudo” mewnosoder “neu gwnstabl”;
- (b) ar ôl yr ail “swyddog” mewnosoder “neu'r cwnstabl”.

(4) Yn rheoliad 6H(4)(b)(ii), yn y testun Saesneg, ar ôl “before” hepgorer “than”.

(5) Yn rheoliad 10(8)—

- (a) yn y diffiniad o “athletwr elît”, yn lle “mharagraff 31(2)(a)” rhodder “mharagraff 21(2)(a)”;
- (b) yn y diffiniad o “cystadleuaeth elît”, yn lle “mharagraff 31(2)(b)” rhodder “mharagraff 21(2)(b)”.

(6) Yn rheoliad 16(1)(a)(i) (hysbysiadau cosb benodedig)—

- (a) yn lle “neu” o flaen “7(5)” rhodder “,”, a
- (b) ar ôl “7(5)” mewnosoder “neu 12E”.

PART 6

Miscellaneous Amendments to the International Travel Regulations

Amendments to the International Travel Regulations

6.—(1) The International Travel Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 6A(4)(d), for “paragraph 24” substitute “paragraph 14”.

(3) In regulation 6B(8)—

- (a) after the first “officer” insert “or a constable”;
- (b) after the second “officer” insert “or constable”.

(4) In regulation 6H(4)(b)(ii), in the English language text, after “before” omit “than”.

(5) In regulation 10(8)—

- (a) in the definition of “elite athlete”, for “paragraph 31(2)(a)” substitute “paragraph 21(2)(a)”;
- (b) in the definition of “elite competition”, for “paragraph 31(2)(b)” substitute “paragraph 21(2)(b)”.

(6) In regulation 16(1)(a)(i) (fixed penalty notices)—

- (a) for the “or” before “7(5)” substitute “,”, and
- (b) after “7(5)” insert “or 12E”.

RHAN 7

Diwygiadau i destun Cymraeg Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (eithriadau sectorol)

7. Ym mharagraff 5(2) o Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (eithriadau sectorol), yn y testun Cymraeg—

- (a) yn lle “(d)” rhodder “(c)”;
- (b) yn lle “(e)” rhodder “(d)”.

RHAN 8

Diwygiad i Reoliadau Rhif 3

Diwygiad i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 (diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)

8. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 (diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol), yn lle “2 i 12” rhodder “2 i 20”.

RHAN 9

Diwygiad i reoliad 4 o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr

9. Yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr (dehongli), yn y diffiniad o “hysbysiad gofynnol”, yn lle paragraffau (e) ac (f) rhodder—

- “(e) datganiad—
 - (i) bod y prawf yn brawf adwaith cadwynol polymerasau, neu
 - (ii) o enw'r ddyfais a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf,
- (f) enw darparwr y prawf;”.

PART 7

Amendments to the Welsh language text of Schedule 5 to the International Travel Regulations

Amendments to Schedule 5 to the International Travel Regulations (sectoral exceptions)

7. In paragraph 5(2) of Schedule 5 to the International Travel Regulations (sectoral exceptions), in the Welsh language text—

- (a) for “(d)” substitute “(c)”;
- (b) for “(e)” substitute “(d)”.

PART 8

Amendment to the No. 3 Regulations

Amendment to regulation 2 of the No. 3 Regulations (amendment of the International Travel Regulations)

8. In regulation 2 of the No. 3 Regulations (amendment of the International Travel Regulations), for “2 to 12” substitute “2 to 20”.

PART 9

Amendment to regulation 4 of the Operator Liability Regulations

9. In regulation 4 of the Operator Liability Regulations (interpretation), in the definition of “required notification”, for paragraphs (e) and (f) substitute—

- “(e) a statement—
 - (i) that the test was a polymerase chain reaction test, or
 - (ii) of the name of the device that was used for the test,
- (f) the name of the test provider;”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 12.02 p.m. ar 12 Mawrth 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 12.02 p.m. on 12 March 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/305>

ISBN 978-0-348-20779-8



9 780348 207798